O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Cyfnewidfa Rhymni, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyfnewidfa Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021

Gwnaed	*28 Ebrill 2021*
Yn dod i rym	*1 Mai 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau o gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu ei gyfyngu ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 (Lleoliadau Amrywiol rhwng Cyfnewidfa Rhymni, Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyfnewidfa Glyn-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mai 2021.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

2021 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A465, A470 & A4060 Trunk Roads (Various Locations between Rhymney Interchange, Caerphilly County Borough and Glynneath Interchange, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2021

Made	*28 April 2021*
Coming into force	*1 May 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the lengths of the A465, A470 and A4060 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A465, A470 & A4060 Trunk Roads (Various Locations between Rhymney Interchange, Caerphilly County Borough and Glynneath Interchange, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2021 and this Order comes into force on 1 May 2021.

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni, cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig a chefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais;

ystyr "cerbyd esempt" *(*"*exempted vehicle*"*)* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Mai 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbytffordd tua'r gorllewin na cherbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk roads" *("y cefnffyrdd")* means the A465 Neath to Abergavenny trunk road, the A470 Cardiff to Llangurig trunk road and the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais trunk road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 May 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the westbound or eastbound carriageways of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

5.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 15, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 15, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.25 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd fel ei fod yn troi i'r dde neu'n troi i'r chwith ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

11. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

12. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar gerbytffordd y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

13. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

14. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5.—(1) Whilst the movement of traffic is, by article 4, prohibited on the westbound carriageway but, pursuant to article 15, not prohibited on the eastbound carriageway, no person may drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway in any direction other than westwards.

(2) Whilst the movement of traffic is, by article 4, prohibited on the eastbound carriageway but, pursuant to article 15, not prohibited on the westbound carriageway, no person may drive any vehicle in the offside lane of the westbound carriageway in any direction other than eastwards.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 3.25 metres on the lengths of the trunk roads specified in Schedules 1 and 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 3 to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

9. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

10. No person may, during the works period, drive any vehicle so as to make a right-hand turn or a left-hand turn on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

11. No person may, during the works period, cause or permit any vehicle to wait at any time on the sides of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

12. No person may, during the works period, cause or permit any vehicle to stop on the carriageway of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order, except upon the direction or with the permission of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

13. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

14. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

Cymhwyso

15. Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 a 14 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

16. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7 ac 8 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

17. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Ebrill 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Application

15. The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 and 14 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

16. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk roads specified in Schedules 3 and 4 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 7 and 8 are in operation.

Duration of this Order

17. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 28 April 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr, dim troi i'r chwith/dde a dim aros/stopio dros dro

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A469 wrth Gyfnewidfa Rhymni hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Cefncoedycymer, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yn Ystad Ddiwydiannol Pant sy'n ymestyn o bwynt 12 metr i'r de o'i chyffordd â Ffordd Ystad Ddiwydiannol Pant hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

SCHEDULE 1
Temporary prohibition of vehicles, cyclists and pedestrians, no left/right-hand turns and no waiting/stopping

The length of the A465 trunk road that extends from its junction with the A469 at Rhymney Interchange to its junction with the north-eastern side of Cefn-coed-y-cymmer Roundabout, including all exit and entry slip roads.

The length of the A465 eastbound entry slip road at Pant Industrial Estate that extends from a point 12 metres south of its junction with Pant Industrial Estate Road to its junction with the main A465 eastbound carriageway.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A465 yn Ystad Ddiwydiannol Pant sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Rocky Road, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465.

The length of the A465 westbound entry slip road at Pant Industrial Estate that extends from a point 50 metres north of its junction with Rocky Road, Merthyr Tydfil to its junction with the main A465 westbound carriageway.

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cefncoedycymer hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hirwaun, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 trunk road that extends from its junction with the western side of Cefn-coed-y-cymmer Roundabout to its junction with the eastern side of Hirwaun Roundabout, including all exit and entry slip roads.

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Hirwaun hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Rhigos, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 trunk road that extends from its junction with the western side of Hirwaun Roundabout to its junction with the south-eastern side of Rhigos Roundabout, including all exit and entry slip roads.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 westbound carriageway that extends from its junction with the western side of Rhigos Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Glynneath Interchange, including all entry and exit slip roads.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhigos, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the western side of Rhigos Roundabout, including all entry and exit slip roads.

Y darnau o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

The lengths of the westbound and eastbound entry slip roads at Glynneath Interchange.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganol Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â'r A4054, gan gynnwys pob cilfan.

The length of the A470 trunk road that extends from the centre of Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil to its junction with the A4054, including all laybys.

Y darn o gefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o ganol y gylchfan wrth ei chyffordd â'r A4102 hyd at ganol Cylchfan Dowlais Top, gan gynnwys pob cilfan.

The length of the A4060 trunk road that extends from the centre of the roundabout at its junction with the A4102 to the centre of Dowlais Top Roundabout, including all laybys.

Pob cilfan sy'n gyfagos i'r darnau o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain cefnffordd yr A465 rhwng Cyfnewidfa Rhymni a Chyfnewidfa Glyn-nedd.

All laybys adjacent to the lengths of the westbound and eastbound carriageways of the A465 trunk road between Rhymney Interchange and Glynneath Interchange.

ATODLEN 2
Gwrthlif a dim goddiweddyd

SCHEDULE 2
Contraflow & no overtaking

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganol trosbont Fifth Avenue, Hirwaun hyd at Gylchfan Hirwaun.

The length of the A465 trunk road that extends from the centre of Fifth Avenue over-bridge, Hirwaun to Hirwaun Roundabout.

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganol trosbont Afon Nedd hyd at ei chyffordd â throsbont yr A469, man i'r dwyrain o Ddowlais Top.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganol Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â'r A4054, man i'r gogledd o Gefncoedycymer.

SCHEDULE 3
Temporary 40 mph speed limit

The length of the A465 trunk road that extends from the centre of the River Neath over-bridge to its junction with the A469 over-bridge, east of Dowlais Top.

The length of the A470 trunk road that extends from the centre of Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil to its junction with the A4054, north of Cefn-coed-y-cymmer.

ATODLEN 4
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganol Cyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ganolbwynt trosbont Afon Nedd.

SCHEDULE 4
Temporary 50 mph speed limit

The length of the eastbound carriageway of the A465 trunk road that extends from the centre of Glynneath Interchange to the centre-point of the River Neath over-bridge.

GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A465, YR A470 A'R A4060 (LLEOLIADAU AMRYWIOL RHWNG CYFNEWIDFA RHYMNI, BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI A CHYFNEWIDFA GLYN-NEDD, CASTELL-NEDD PORT TALBOT) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Rhymni a Chyfnewidfa Glyn-nedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Bydd y ffyrdd ar gau yn llwyr dros nos, ar y penwythnosau a 24/7 yn ysbeidiol yn ystod cyfnod y gwaith. Ni fydd y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i gyd ar gau ar yr un pryd. Bydd hysbysiadau ymlaen llaw yn cael eu harddangos i roi gwybod am y ffyrdd fydd ar gau a'r llwybrau eraill.

ii. cau naill ai'r gerbytffordd tua'r gorllewin neu'r gerbytffordd tua'r dwyrain a gwahardd goddiweddyd ar y darn o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn y lôn allanol o ba un bynnag o'r cerbytffyrdd sy'n aros ar agor i draffig;

iii. gwahardd cerbydau dros 3.25 metr o led rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd llwybrau eraill ar gael fel y'u disgrifir yn Atodlen 1;

iv. gwahardd pob cerbyd rhag aros neu stopio ar y darnau o gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn oni bai yr awdurdodir hwy i wneud hynny gan gwnstabl yr heddlu neu swyddog cymorth cymunedol yr heddlu;

v. gwahardd pob cerbyd rhag troi i'r dde a throi i'r chwith ar y darnau o gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

vi. gwahardd cerddwyr a beicwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A465, yr A470 a'r A4060 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

vii. gosod terfyn cyflymder 40 mya dros dro ar y

THE A465, A470 & A4060 TRUNK ROADS (VARIOUS LOCATIONS BETWEEN RHYMNEY INTERCHANGE, CAERPHILLY COUNTY BOROUGH AND GLYNNEATH INTERCHANGE, NEATH PORT TALBOT) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465, A470 and A4060 trunk roads between Rhymney Interchange and Glynneath Interchange.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles, except those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A465, A470 and A4060 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative route arrangements are also described therein.

Total closures will take place overnight, at weekends and 24/7 on an intermittent basis during the works period. The lengths of the trunk roads described in Schedule 1 will not all be closed at the same time. Advance notices will be displayed to advise of impending road closures and alternative routes.

ii. close either the westbound or eastbound carriageway and prohibit overtaking on the length of the A465 trunk road described in Schedule 2 to this Notice. Contra-flow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic;

iii. prohibit vehicles over 3.25 metres wide from proceeding on the lengths of the A465, A470 and A4060 trunk roads specified in Schedules 1 and 2 to this Notice. Alternative routes will be available as per the details in Schedule 1;

iv. prohibit all vehicles from waiting or stopping on the lengths of the A465, A470 and A4060 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice unless authorised to do so by a police constable or police community support officer;

v. prohibit all vehicles from making right-hand and left-hand turns on the lengths of the A465, A470 and A4060 trunk roads described in Schedule 1 to this Notice;

vi. prohibit pedestrians and cyclists from proceeding on the lengths of the A465, A470 and A4060 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice;

vii. impose a temporary 40 mph speed limit on the

darnau o gefnffyrdd yr A465 a'r A470 a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder is hwn yn weithredol drwy gydol cyfnod para'r gwaith;

viii. gosod terfyn cyflymder 50 mya dros dro ar y darn o gefnffordd yr A465 a bennir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder is hwn yn weithredol drwy gydol cyfnod para'r gwaith.

Daw'r gorchymyn i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Mai 2021 a disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol yn ôl yr angen a phan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

lengths of the A465 and A470 trunk roads specified in Schedule 3 to this Notice. This reduced speed limit will be in place for the duration of the works;

viii. impose a temporary 50 mph speed limit on the length of the A465 trunk road specified in Schedule 4 to this Notice. This reduced speed limit will be in place for the duration of the works.

The Order comes into force at 00:01 hours on 1 May 2021 and the temporary prohibitions and restrictions are expected to operate as required and when indicated by traffic signs for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwaharddd cerbydau, beicwyr a cherddwyr, dim troi i'r chwith/dde a dim aros/stopio dros dro

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A469 wrth Gyfnewidfa Rhymni hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Cefncoedycymer, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yn Ystad Ddiwydiannol Pant sy'n ymestyn o bwynt 12 metr i'r de o'i chyffordd â Ffordd Ystad Ddiwydiannol Pant hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A465 yn Ystad Ddiwydiannol Pant sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Rocky Road, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465.

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i

SCHEDULE 1
Temporary prohibition of vehicles, cyclists and pedestrians, no left/right-hand turns and no waiting/stopping

The length of the A465 trunk road that extends from its junction with the A469 at Rhymney Interchange to its junction with the north-eastern side of Cefn-coed-y-cymmer Roundabout, including all exit and entry slip roads.

The length of the A465 eastbound entry slip road at Pant Industrial Estate that extends from a point 12 metres south of its junction with Pant Industrial Estate Road to its junction with the main A465 eastbound carriageway.

The length of the A465 westbound entry slip road at Pant Industrial Estate that extends from a point 50 metres north of its junction with Rocky Road, Merthyr Tydfil to its junction with the main A465 westbound carriageway.

The length of the A465 trunk road that extends from

chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cefncoedycymer hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hirwaun, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

its junction with the western side of Cefn-coed-y-cymmer Roundabout to its junction with the eastern side of Hirwaun Roundabout, including all exit and entry slip roads.

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Hirwaun hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Rhigos, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 trunk road that extends from its junction with the western side of Hirwaun Roundabout to its junction with the south-eastern side of Rhigos Roundabout, including all exit and entry slip roads.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A465 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 westbound carriageway that extends from its junction with the western side of Rhigos Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Glynneath Interchange, including all entry and exit slip roads.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A465 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhigos, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.

The length of the A465 eastbound carriageway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Glynneath Interchange to its junction with the western side of Rhigos Roundabout, including all entry and exit slip roads.

Y darnau o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

The lengths of the westbound and eastbound entry slip roads at Glynneath Interchange.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganol Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â'r A4054, gan gynnwys pob cilfan.

The length of the A470 trunk road that extends from the centre of Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil to its junction with the A4054, including all laybys.

Y darn o gefnffordd yr A4060 sy'n ymestyn o ganol y gylchfan wrth ei chyffordd â'r A4102 hyd at ganol Cylchfan Dowlais Top, gan gynnwys pob cilfan.

The length of the A4060 trunk road that extends from the centre of the roundabout at its junction with the A4102 to the centre of Dowlais Top Roundabout, including all laybys.

Pob cilfan sy'n gyfagos i'r darnau o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain cefnffordd yr A465 rhwng Cyfnewidfa Rhymni a Chyfnewidfa Glyn-nedd.

All laybys adjacent to the lengths of the westbound and eastbound carriageways of the A465 trunk road between Rhymney Interchange and Glynneath Interchange.

Trefniadau y llwybrau eraill

Alternative route arrangements

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriadau ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r A465, yr A470 neu'r A4060 ar gau dros dro i draffig.

The alternative routes will be indicated with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the A465, A470 or A4060 is temporarily closed to traffic.

Bydd llwybrau eraill ar gael, fel y bo'n briodol, ar hyd y ffordd ddienw i'r gogledd o'r A465 rhwng Cyfnewidfa Rhymni a Dowlais Top; yr A4060; yr A4059; yr A470; yr A4102, Cyfarthfa Road, Brecon Road, Gurnos Road, Ffordd Gylchu'r Gurnos, Rocky Road, Bryniau Road a Swansea Road (ardal Cefncoedycymer/Merthyr Tudful); Brecon Road a Rhigos Road (ardal Hirwaun), yr A4061 Rhigos Road; Merthyr Road, Aberdare Road, High Street a'r A4109 (ardal Glyn-nedd); a'r A465.

Alternative routes will be available, as appropriate, via the unnamed road north of the A465 between Rhymney Interchange and Dowlais Top; the A4060; A4059; A470; A4102, Cyfarthfa Road, Brecon Road, Gurnos Road, Gurnos Ring Road, Rocky Road, Bryniau Road and Swansea Road (Cefn-coed-y-cymmer/Merthyr Tydfil area); Brecon Road and Rhigos Road (Hirwaun area), A4061 Rhigos Road; Merthyr Road, Aberdare Road, High Street and A4109 (Glynneath area); and A465.

ATODLEN 2
Gwrthlif a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganol trosbont Fifth Avenue, Hirwaun hyd at Gylchfan Hirwaun.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganol trosbont Afon Nedd hyd at ei chyffordd â throsbont yr A469, man i'r dwyrain o Ddowlais Top.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganol Cylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful hyd at ei chyffordd â'r A4054, man i'r gogledd o Gefncoedycymer.

ATODLEN 4
Terfyn cyflymder 50 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o ganol Cyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ganolbwynt trosbont Afon Nedd.

SCHEDULE 2
Contraflow & no overtaking

The length of the A465 trunk road that extends from the centre of Fifth Avenue over-bridge, Hirwaun to Hirwaun Roundabout.

SCHEDULE 3
Temporary 40 mph speed limit

The length of the A465 trunk road that extends from the centre of the River Neath over-bridge to its junction with the A469 over-bridge, east of Dowlais Top.

The length of the A470 trunk road that extends from the centre of Swansea Road Roundabout, Merthyr Tydfil to its junction with the A4054, north of Cefn-coed-y-cymmer.

SCHEDULE 4
Temporary 50 mph speed limit

The length of the eastbound carriageway of the A465 trunk road that extends from the centre of Glynneath Interchange to the centre-point of the River Neath over-bridge.